PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 16 HYDREF 2019

Yn bresennol: Cynghorydd K Jones(Cadeirydd)

Cynghorwyr Ahmed, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Keith Parry a/ac Sattar

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Lay

11 : COFNODION

Llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2019 fel cofnod cywir.

12 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim

13 : DEISEBAU

Rhif cais, 19/01426/MNR, Gwesty a Sba Dewi Sant, Havannah Street
Cais rhif 19/01339/MNR, 238 Pantbach Road, Rhiwbeina
Rhif cais, 19/01752/MNR, Tŷ Newydd, Heol Goch, Pentyrch

14 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 16 Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

CEISIADAU A GANIATEIR

19/02214/MNR – CATHAYS

82 CATHAYS TERRACE
Estyniad cefn llawr daear, dormer cefn a throsi o C4 i dŷ amlfeddiannaeth Sui Generis.

CEISIADAU WEDI'U GWRTHOD

19/01339/DCO – RHIWBEINA

238 PANTBACH ROAD
Dymchwel rhan o'r adeiladau unllawr a deulawr ac adeiladu adeilad tri llawr sy'n cynnwys dwy uned fasnachu a fflat un ystafell wely ar y llawr daear a thri fflat dwplecs ar y llawr cyntaf ac ar yr ail lawr.

1. Byddai'r datblygiad yn rhinwedd ei uchder, ei grynswth a'i raddfa yn groes i'r adeiladau eraill yn yr ardal o'i gwmpas ac yn niweidiol i gymeriad gweledol yr ardal, yn groes i bolisi KP5 (i) o Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd.

2. Byddai graddfa a chrynswth y datblygiad, ynghyd â'i agosrwydd at y ffiniau ag eiddo cyfagos, yn arwain at effaith ormodol ac ymwthiol annerbyniol a fyddai'n niweidiol i amwynderau meddianwyr cyfagos, yn groes i bolisi KP5 (x) Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd.

3. Byddai'r datblygiad yn niweidiol i osodiad Ardal Gadwraeth Pentref Gardd Rhiwbeina gan y byddai'n ymddangos fel nodwedd anghyson o ran cadw maint a chymeriad eiddo masnachol ac anheddau sy'n bodoli eisoes yng nghyffiniau'r safle sy'n ffurfio lleoliad yr ardal gadwraeth, yn groes i bolisi EN9 o Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd.

19/01749/MNR – CATHAYS

20 MAY STREET
Estyniad cefn llawr daear a chyntaf, dormer cefn a throsi i dŷ amlfeddiannaeth 6 gwely C4.

19/01752/MNR – PENTYRCH

TŶ NEWYDD, HEOL GOCH
Codi bloc stablau sy'n cynnwys ystafell harneisiau ac ystafell olchi i gefnogi'r padog/gwarchodfa asynnod gyfagos.

Yn amodol ar ddiwygiad i Reswm 2 i ddarllen:

'Byddai'r cynnig yn rhagfarnu natur agored y tir ac yn achosi niwed annerbyniol i Ardal o Dirwedd Arbennig Mynydd y Garth a Phentyrch a byddai'n methu â bodloni unrhyw un o'r meini prawf ar gyfer cyfiawnhau datblygu o fewn lletem las a nodir ym mharagraffau 3.71 i 3.74 o Polisi Cynllunio Cymru yn groes i Bolisïau KP3(A) ac EN3 o Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006-2026.

19/02232/MNR – CATHAYS

5 MAY STREET
Newid defnydd o annedd tair ystafell wely (C3) i mewn i dŷ amlfeddiannaeth pum ystafell wely (ôl-weithredol)

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

19/01331/MNR – LLYS-FAEN

LOZELLES, CHURCH ROAD
Cynnig i adeiladu bloc o 6 fflat hunangynhwysol.

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

19/02126/DCH – CYNCOED

1 THE FAIRWAY
Estyniadau unllawr i gefn yr eiddo a deulawr i ochr yr eiddo.

CEISIADAU WEDI'U TYNNU ODDI AR YR AGENDA

19/01426/MNR – BUTETOWN

GWESTY A SBA DEWI SANT, HAVANNAH STREET
Datblygiad llinell sip dros dro arfaethedig am gyfnod o 6.5 mis (30 wythnos galendr) o do Gwesty Dewi Sant, Havannah Street, Caerdydd, CF10 5SD i dir ger yr Eglwys Norwyaidd (Parc y Glannau/Parc Britannia) Rhodfa'r Harbwr, Bae Caerdydd.

15 : CEISIADAU WEDI EU PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG – MEDI 2019

Nodwyd

16 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 20 TACHWEDD 2019

Nodwyd